Bwrdd Trafnidiaeth Cymru

Cofnodion cyfarfod 18 Mehefin 2026

Cynhaliwyd yn y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl

Aelodau:	
Vernon Everitt	Aelod Anweithredol a Chadeirydd
Heather Clash	Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol
Rhian Langham	Aelod anweithredol
Vinay Parmar	Aelod anweithredol
James Price	Prif Swyddog Gweithredol
Marcia Sinfield	Aelod anweithredol
Peter Strachan	Aelod anweithredol
Hefyd yn bresennol:	
Sam Hadley	Cyfarwyddwr Polisi
Jeremy Morgan	Pennaeth Cydymffurfio a Llywodraethu Corfforaethol
Ceri Taylor	Arweinydd Gwasanaethau Corfforaethol
Rob Holmes	Pennaeth Staff
Jon Travis	Sylwedydd (Llywodraeth Cymru)
Alan McCarthy	Sylwedydd (undebau llafur) (eitemau 1-6a)
Lorenzo Visentin	Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (eitemau 1-4)
Zoe Smith-Doe	Pennaeth Adrodd a Chynllunio Busnes (Eitem 7)
Ben George	Pennaeth Trafnidiaeth Ranbarthol (eitemau 10 ac 11)
Lee Robinson	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio (Eitemau 10 ac 11)
Y Cyng. Anthony Hunt	Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Eitem 11)

1. Croeso, ymddiheuriadau, cworwm, datganiadau a chofnodion blaenorol

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Lucas.

Nododd y Cadeirydd fod cworwm yn y cyfarfod a datganodd ei fod ar agor.

Nododd y Bwrdd fod Peter Strachan wedi cael ei benodi'n Gadeirydd Pwyllgor Taliadau'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd a'i fod, o ganlyniad, wedi dod yn gyfarwyddwr Cymdeithas y Cwmnïau Trên. Nodwyd y buddiant hwn ac mae wedi cael ei ychwanegu at Gofrestr Buddiannau gyhoeddedig y Bwrdd. Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiant.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ym mis Mai 2026 yn gofnod cywir. Adolygodd y Bwrdd y log camau gweithredu a nododd statws y camau gweithredu a oedd yn weddill.

2. Sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid

Trafododd y Bwrdd sylwadau o orsaf fysiau'r Fenni a phwysigrwydd sicrhau bod cyfrifoldebau bysiau a threnau yn y dyfodol yn cael eu hystyried mewn ffordd integredig o safbwynt cwsmeriaid. Nododd yr aelodau yr angen am ddulliau clir o ganfod y ffordd, brandio cyson a gwybodaeth hygyrch i gwsmeriaid ar draws dulliau teithio.

Nododd y Bwrdd y gwahanol ddemograffeg cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau bysiau a phwysleisiodd yr angen i gadw opsiynau analog ochr yn ochr â thocynnau digidol a sianeli gwybodaeth. Nododd yr aelodau hefyd ystyriaethau diogelwch ymarferol mewn gorsafoedd bysiau, gan gynnwys llochesi digonol i gwsmeriaid a'r risg y bydd cwsmeriaid yn rhuthro am fysiau.

Trafododd yr aelodau bwysigrwydd deall profiad go iawn cwsmeriaid a sicrhau bod cydweithwyr yn gallu gweld gwasanaethau drwy lygaid cwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau gweithredol a strategol. Nododd y Bwrdd fod angen i sianeli digidol barhau i allu addasu a pharhau i arloesi.

Myfyriodd aelod ar ei phrofiad o gefnogi'r cyngerdd Take That diweddar yn Stadiwm Principality, Caerdydd, gan nodi'r gwaith cynllunio sylweddol, y cymorth gan wirfoddolwyr a'r dull un tîm a oedd wedi bod yn sail i weithrediad ar gyfer y cwsmer. Trafododd y Bwrdd sut y gellid gwreiddio profiad rheng flaen yn fwy cyson mewn prosesau datblygu a dyrchafu cydweithwyr, a sut y gellid dod â dysgu o ddigwyddiadau mawr yn ôl i rolau o ddydd i ddydd.

Trafododd y Bwrdd hefyd oblygiadau ehangach ar gyfer teithio hwyr y nos, gan gynnwys profiad gweithwyr lletygarwch a allai fod angen defnyddio tacsis pan nad oes gwasanaethau rheilffyrdd ar gael. Nododd yr Aelodau y gallai masnachfreinio bysiau yn y dyfodol gynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

3. Talerddig

Ystyriodd y Bwrdd adroddiad y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y gwrthdrawiad yn Nhalerddig. Trafododd y Bwrdd effaith drasig colli Tudor Evans a mynegodd ei gydymdeimlad â'i deulu a'i ffrindiau. Trafododd y Bwrdd hefyd yr effaith ar bawb arall yr oedd y gwrthdrawiad wedi effeithio arnynt. Pwysleisiodd y Bwrdd hefyd yr angen parhaus i ofalu am bawb dan sylw a'u teuluoedd.
Myfyriodd y Prif Weithredwr ar ddifrifoldeb y gwrthdrawiad a'i effaith eang, yn allanol ac yn fewnol. Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am ymateb TrC i'r materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Nododd y Bwrdd dri argymhelliad yr adroddiad a oedd yn cyfeirio at TrC, gan gynnwys yr angen i weithio'n agos gyda Network Rail i ddeall y rhyngweithio rhwng cledrau a threnau, cryfhau hyfforddiant gyrwyr, ac ystyried yr ymwybyddiaeth o ddiogelwch sy'n ofynnol gan staff heb gyfrifoldebau diogelwch hollbwysig.
Nododd y Bwrdd y byddai prosesau pellach, gan gynnwys adroddiad y crwner, yn dilyn.
Yn ogystal â'r argymhellion penodol ar gyfer TrC, trafododd y Bwrdd sut y gellid grymuso cydweithwyr i herio arferion hirsefydlog ar draws y diwydiant lle'r oedd risgiau posibl yn bodoli yn y rhyngwyneb rhwng cledrau a threnau. Nododd y Bwrdd fod rhai materion yn berthnasol i'r diwydiant cyfan a'u bod wedi bodoli ers tro byd, gan gydnabod y cyfle a ddaw yn sgil creu Great British Railways a throsglwyddo gwaith rheoli seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn y dyfodol. **Cam gweithredu:** Lorenzo Visentin i hwyluso trafodaeth Tîm Arwain Gweithredol ar rymuso a diogelwch.
Cytunodd y Bwrdd y dylid cael eglurder ynghylch yr un meddwl arweiniol ar gyfer materion sy'n codi o'r gwrthdrawiad a nododd y byddai'r Bwrdd Rheilffyrdd yn cynnal trafodaeth bellach. **Cam gweithredu:** James Price i fynd â'r mater yn ôl i'r Bwrdd Rheilffyrdd.

4. Perfformiad diogelwch

Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad perfformiad diogelwch a thrafod digwyddiadau a thueddiadau allweddol.
Nododd yr aelodau ddau ddigwyddiad Pasio Signalau Stop ar y brif linell a bod camau dilynol yn cael eu cymryd.
Nododd y Bwrdd hefyd fod adroddiadau am afreoleidd-dra wrth anfon trenau yn adlewyrchu diwylliant adrodd cadarnhaol.

Trafododd y Bwrdd ddigwyddiadau diogelwch personol diweddar, gan gynnwys y digwyddiad yng Ngorsaf Dinbych-y-pysgod, a nododd fod ap adrodd TapSOS wedi cael ei dreialu i gynorthwyo adrodd ar frys. Roedd yr aelodau'n cydnabod y gallai'r treial gynyddu nifer yr adroddiadau wrth i gydweithwyr allu mynegi pryderon yn gyflym.

[redacted]

Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiadau am ymosodiadau corfforol a nododd fod nifer o ddigwyddiadau'n dal yn amodol ar gael eu dilysu. Trafododd yr aelodau effaith tywydd poeth ar wasanaethau ac ymddygiad cwsmeriaid, gan nodi y dylid trin gwres eithafol fwyfwy fel risg weithredu arferol. Gofynnodd y Bwrdd am roi ystyriaeth bellach i fesurau lliniaru o ran cwsmeriaid, gan gynnwys arwyddion yn annog cwsmeriaid i gario dŵr, a nododd y dylai'r cynllun ymaddasu i'r hinsawdd a chadernid roi sylw digonol i effeithiau ar gwsmeriaid yn ogystal â gwydnwch y seilwaith. **Camau Gweithredu:** (1) Lewis Brencher i adolygu mesurau lliniaru a

chyfathrebu â chwsmeriaid yn ystod tywydd poeth; (2) Natalie Rees i gynnwys mwy o ffocws ar gwsmeriaid yn fersiwn nesaf cynllun ymaddasu i'r hinsawdd a chadernid TrC.

Trafododd yr aelodau ymddygiad gwrthgymdeithasol a phobl ifanc yn ymgasglu a gofynnwyd sut roedd gwybodaeth yn cael ei chasglu i gefnogi ymatebion effeithiol. **Cam gweithredu:** Lorenzo Visentin i ystyried trefniadau casglu gwybodaeth gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

5. Archwiliad dwfn - yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Trafododd y Bwrdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) gan holi a oedd TrC yn cael digon o werth am arian a chymorth digonol yn benodol i [redacted] Nododd y Bwrdd hefyd y fantais bosibl o gael swyddog wedi'i wreiddio yn TrC.

[redacted]

Nododd sylwedydd Llywodraeth Cymru gyllid grant yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ogystal â'r cronfeydd craidd drwy NR a TrC a'r angen i sicrhau gwerth am arian. Cytunodd yr aelodau fod y pryder yn ymwneud â gwerth am arian, atebolrwydd a defnydd strategol yn hytrach nag ymrwymiad ac ymroddiad swyddogion lleol.

[redacted]

Nododd y Bwrdd hefyd y dylid ystyried y berthynas â'r Grŵp Trafnidiaeth Drefol fel rhan o'r dull ehangach o rannu profiadau.

Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod.

6a. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a thynnodd sylw at faterion gweithredol, ariannol a strategol allweddol.

Nododd y Bwrdd fod y gwaith trydaneiddio i Fae Caerdydd wedi'i gwblhau a bod mynediad i'r gwasanaeth i unedau Dosbarth 398 ar gyswllt y Bae wedi'i gynllunio ar gyfer 23 Mehefin, gan ddefnyddio nifer cyfyngedig o unedau i ddechrau fel rhan o'r broses brofi a chyflwyno.

Rhoddodd y Prif Weithredwr yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am orsafoedd Burns, gan nodi bod model cyflawni wedi cael ei gynnig i Network Rail.

Nododd y Bwrdd fod ymgysylltu â Gweinidogion newydd yn mynd ymlaen yn barhaus ac yn gadarnhaol.

Trafododd y Bwrdd faterion parhaus yn ymwneud ag unedau Dosbarth 197 a nododd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i TrC ddarparu achos polisi strategol erbyn diwedd mis Awst 2026 yn nodi pam fod yr opsiwn arfaethedig ar gyfer deg uned ychwanegol yn briodol.

Nododd y Bwrdd fod newid amserlen Gogledd Cymru wedi arwain at dwf canrannol dau ddigid

Trafododd yr aelodau'r gwasanaeth bws moethus rhwng y gogledd a'r de a nododd adborth gan Lywodraeth Cymru fod cyllideb o £3m ar gael yn hytrach na'r £4m y gofynnwyd amdano.

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod am newidiadau i dîm Trafnidiaeth a Chysylltedd Llywodraeth Cymru.

Gadawodd Alan McCarthy y cyfarfod.

6b. Cyllid

Nododd y Bwrdd uchafbwyntiau gweithgareddau ariannol TrC a'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at ac yn cynnwys mis Mai 2026. [redacted]

Nododd y Bwrdd fod adolygiad Archwilio Cymru o raglen Llinellau Craidd y Cymoedd yn parhau.

Nododd y Bwrdd effaith ariannol bosibl y sefyllfa geowleidyddol bresennol a'r wybodaeth ddiweddaraf am iawndal penodedig CAF, hawliadau Amey Infrastructure Wales a chostau trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

7. Strategaeth Gorfforaethol

Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod.

Mynegodd y Bwrdd gefnogaeth eang i'r amlinelliad drafft o'r Strategaeth Gorfforaethol. Pwysleisiodd yr aelodau fod angen i'r strategaeth ychwanegu gwerth at y sefydliad a gallu arwain penderfyniadau.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod symlrwydd yn parhau i fod yn amcan allweddol a gofynnodd y Bwrdd i'r naratif ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol felly gael ei dorri i lawr i fwrdd stori syml a chlir iawn.

Cytunodd y Bwrdd mai'r blaenoriaethau strategol arfaethedig oedd y meysydd ffocws cywir ar y cyfan. Gofynnodd yr aelodau i'r set DPA gynnwys mesur ychwanegol yn ymwneud â diogelwch teithwyr dan y thema 'diogel a gwydn' a gofynnwyd am i'r strategaeth gael ei dwyn yn ôl i'r Bwrdd unwaith eto cyn ei chwblhau'n derfynol (**Cam Gweithredu** Zoe Smith-Doe).

Gadawodd Zoe Smith-Doe y cyfarfod.

8. Diweddariadau ar lywodraethiant a phwyllgorau

Derbyniodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan fforymau llywodraethiant diweddar. Roedd y Bwrdd Llywio wedi ystyried ymgysylltu â Gweinidogion newydd, negeseuon allweddol yn deillio o ymgysylltu'n gynnar ac eitemau rheolaidd ar yr agenda gan gynnwys cyflogau.

Roedd y Bwrdd Rheilffyrdd wedi cynnal archwiliadau dwfn o ddiogelwch, perfformiad gweithredol a refeniw.

Roedd cyfarfod diweddar bwrdd Pullman wedi ystyried cyflawni'r cynllun adfer, gwelliannau ansawdd a symud i Drefforest.

Roedd y Pwyllgor Pobl wedi ystyried y Strategaeth Pobl a'r cynllun cyflawni, ochr yn ochr ag adolygiad arfaethedig Gartner o'r swyddogaeth Pobl. Roedd y Pwyllgor Cwsmeriaid wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth cwsmeriaid, y disgwylid iddi gael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Roedd y Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y dyfarniad cyflog, a dderbyniwyd gan yr undebau, a materion yn ymwneud â chyflogau swyddogion, gan gynnwys cadw staff, data'r farchnad ac ystyriaethau olyniaeth.

Nododd y Bwrdd adroddiad a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a derbyniodd yr argymhellion canlynol, sef:

(1) ar sail y gwaith a wnaed yn ystod 2025/26, mae gan y Bwrdd sicrwydd rhesymol bod fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC yn effeithiol ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion TrC; ac

(2) yn amodol ar gasgliad yr archwiliad allanol, bod y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 a'r Llythyr Sylwadau yn cael eu cymeradwyo a bod James Price yn gallu llofnodi datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru a llofnodi'r llythyr sylwadau i'r archwilwyr;

(3) gellir dirprwyo'r Prif Swyddog Gweithrediadau i lofnodi datganiadau ariannol Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ac i lofnodi'r llythyr sylwadau i'r archwilwyr;

(4) caiff James Price lofnodi datganiadau ariannol Rheolwr Seilwaith Dewis Olaf Cymru Cyfyngedig (segur felly nid oes angen archwiliad); a

(5) mae'r Adroddiad Blynyddol, o'i gymryd gyda'i gilydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac felly mae mor berthnasol â phosibl i ddarllenwyr ac ar sail ei waith a'i oruchwyliaeth, gall y Bwrdd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi.

Diolchodd y Bwrdd i Heather Clash a'r tîm am eu gwaith yn cynhyrchu'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer 2025/26.

10. Paratoi ar gyfer sesiwn rhanddeiliaid

Ymunodd Ben George a Lee Robsinson â'r cyfarfod i friffio aelodau ar ardal Torfaen a materion trafnidiaeth cyfredol.

11. Sesiwn rhanddeiliaid

Ymunodd y Cynghorydd Anthony Hunt â'r cyfarfod ar gyfer trafodaeth rhanddeiliaid a oedd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau trafnidiaeth yn Nhorfaen.

Trafododd y Bwrdd gysylltedd rheilffyrdd, gan nodi gwelliannau diweddar yn cynnwys 'Tapio Ymlaen Tapio Ymadael', maes parcio newydd i orsaf Pont-y-pŵl a New Inn ac adnewyddu yng Nghwmbrân. Nododd yr aelodau hefyd fod amlder gwasanaethau'n dal yn is nag mewn rhai cymoedd eraill, bod angen gwasanaeth sy'n stopio'n amlach, ac y gallai lleoliad gorsafoedd a seilwaith ffyrdd ym Mhont-y-pŵl a New Inn greu rhwystrau mynediad. Trafodwyd y potensial ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth sy'n ymateb i'r galw i orsafoedd, ochr yn ochr â'r angen i barhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU dros wasanaethau prif linell ychwanegol.

Nododd y Bwrdd bryderon ynghylch seilwaith ffyrdd i ran uchaf y cwm a'r goblygiadau ehangach ar gyfer mynediad economaidd a chynhwysiant cymdeithasol.

Trafododd y Bwrdd y rhwydwaith bysiau lleol. Nododd yr aelodau gefnogaeth ar gyfer masnachfreinio fel ffordd o alluogi traws-gymhorthdal i lwybrau a gwella'r ddarpariaeth rhwydwaith gyffredinol.

Trafododd yr aelodau hefyd rôl trafnidiaeth o ran cefnogi treftadaeth, twristiaeth a'r economi leol. Trafodwyd cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus gwael i ganol trefi a safleoedd cyflogaeth fel ystâd Mamhilad.

Nododd y Bwrdd sylwadau nad yw trafnidiaeth gymunedol yn cyd-fynd yn y ffordd orau bosibl â'r galw ar hyn o bryd ac mae'n bosibl bod hwn yn faes ar gyfer gwelliant yn cael ei arwain gan ddata.

Cytunwyd ar y **camau gweithredu** canlynol. TrC [Lee Robinsson / Ben George] i wneud y canlynol:

- Archwilio gwelliannau gwasanaeth i Linell y Gororau (amlder/stopio)
- Ymgysylltu ar ymyriadau prisiau ac opsiynau fforddiadwyedd
- Rhannu data i gefnogi cynllunio trafnidiaeth gymunedol
- Datblygu cynigion ar gyfer:

    - Gwelliannau i gysylltedd - gorsaf Pont-y-pŵl
    - DRT / atebion bws gwennol i safleoedd cyflogaeth
- Cymryd rhan mewn trafodaeth bellach ar gonsesiynau wedi'u targedu a chynlluniau sy'n gysylltiedig â chyflogwyr
- Ymgysylltu ag Aelod Cabinet Torfaen (Lle/Economi)
- Deialog barhaus yn cysylltu trafnidiaeth a datblygu economaidd

Gadawodd Anthony Hunt, Ben George a Lee Robinson y cyfarfod.

9. Sesiwn gyfrinachol

Gadawodd Heather Clash, Ceri Taylor, Jon Travis, Sam Hadley a Rob Holmes y cyfarfod. Trafododd y Bwrdd adolygiadau rheoli perfformiad Uwch Swyddogion.

11. Cau

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a chaeodd y cyfarfod.